44

# Llofruddio Cyfaill, a gorfod bwyta ei gnawd rhag marwolaeth.

# *HANES TRAGALARUS,*

AM Y DIODDEFIADAU

*MWYAF DYCHRYNLLYD ac y clybiwyd son am danynt erioed, oddiar dir na mor.*

## MANYLION:--

Dydd Llun, Mai y 19, 1884, hwyliodd y llong fechan, y Mignonette o Southampton, am Australia, yn cynwys ei llwyth a phedwar o forwyr profedig,—Capten Thomas Dudley, Edwin Stephens, Edward Brooks, a llanc ieuanc amddifad o'r enw Richard Parker. Hwyliasant o'r adeg a nodwyd hyd y 5ed o Gorphenaf, yn bur llwyddianus, ac ar y dyddiad yma, suddodd eu llong, a buont hwythau am 24 o ddyddiau a nosweithiau, mewn cwch bychan agored, heb ond y peth nesaf i ddim fel ymborth a dwfr. Wedi 15 diwrnod o arteithiau dychrynllyd, penderfynasant mai gwell oedd rhoddi terfyn ar fywyd un o honynt, er bod yn ymborth i'r lleill rhag marwolaeth, a syrthiodd y dynged ofnadwy ar y llanc amddifad, a charedig, Richard Parker, ac am y 9 diwrnod gweddill, buont yn byw yn hollol ar gnawd y truan tlawd, hyd nes iddynt gael eu codi ar y 29 o'r un mis gan long Germanaidd, yr hon a'u dygodd yn ol i dir eu gwlad Claddwyd yr hyn oedd heb ei fwyta o'r bachgen yn y mor, gan y morwyr Germanaidd.

*Ton—"MORGAN BACH."*

MAE newyddion calon rwygol
　Yn ein cyrhaedd bron bob dydd,
Am ryw drychinebau erchyll
　Sydd yn gwneyd ein bron yn brudd;

Weithiau dryllir ein teimladau
  Gan y danchwa yn y gwaith,
A cheir hanes am galedi
  Mawr, ar donau'r weilgi llaith.

Ond er cymaint fu'r caledi
  Ar y moroedd maith a'r tir,
Dyma'r mwyaf torcalonus ;
  O! mae'n brathu fel y dur ;
Megys ar adenydd mellten
  Y cyhoeddir yn mhob gwlad,
Am y dioddefiadau erchyll
  Ddaeth i'n dewrion forwyr mad.

Draw yn nghanol dwys unigedd,—
  Rhwng tymhestlog donau'r mor,
Suddo wnaeth eu llong i'r dyfnder,
  Ond eu harbed hwy wnaeth Ior ;
Dim ond Cwch agored bellach
  Oedd yr unig obaith gwan,
Y gallasent er yn wyrthiol
  Gyrhaedd rywbryd at y lan.

'Roedd y mor fel pe'n gynddeiriog,
  Am eu llyncu oll yn fyw,
Ond nid felly ydoedd bwriad
  Yr Un doeth sydd wrth y llyw;
Ac am bedwar-dydd-ar-hugain
  Yn y Cwch y buont hwy,
Heb ond 'chydig iawn o luniaeth,
  Pwy a draetha faint eu clwy'.

Wedi byw am bymtheg diwrnod
  Yn y 'stormydd nos a dydd,
Heb un gobaith am ollyngdod
  O'u caethiwed mawr yn rhydd.
Yr oedd newyn du a syched
  Bron a llethu 'u natur wan,
Hwythau bellach yn rhoi fyny
  Ac mai marw oedd eu rhan.

Yma'n nghanol dryswch meddwl
  Ac arteithiau angau du,
Pwy o honom all ddych'mygu'n
  Hollol gywir fel y bu ;
Capten Dudley a gyfeiriodd—
  "O ! gyfeillion, caled yw,
Son am un o honom farw,
  Er mwyn cadw'r lleill yn fyw."

Richard Parker, llanc caredig,
  Er mor anwyl ganddynt hwy,
Benderfynwyd oedd i farw,
  Ac i dderbyn marwol glwy';
Dwedwyd wrth y tlawd amddifad
  Marw bellach raid i ti,—
Gwell nac ini drengu'n pedwar
  Ydyw cadw bywyd tri.

Parker hoff, ei waed ollyngwyd,
  Megys oen heb arwydd groes,
O ! mae edrych dros yr hanes
  I ni'n peru dirfawr loes ;

Ac fel rhedai gwaed y glanddyn
Hwy a'i llarpient oll yn llwyr,
'Roedd eu poenau'n anrheithadwy
Ac nid oes ond Duw a'i gwyr.

Am ryw naw o ddyddiau'n rhagor
Mewn arteithiau buont hwy,
'Roedd a basiodd yn angherddol
Ond yn ddyfnach aeth eu clwy';
Gwel'd eu hunain yn llofruddion,—
Yfed gwaed eu cyfaill pur,—
Bwyta'i gnawd rhag ofn marwolaeth,
Hyn a'u brathent fel y dur.

Y pedwerydd ddydd-ar-hugain,
Eto'n nghanol poenau mawr,
Angau bron a chael y trechaf,
Yn y cyfwng torodd gwawr;
A phan welsant yn y pellder
Long mewn hwyliau'n agoshau;
O! fel ceisient dalu diolch,
A diddiwedd lawenhau.

Wedi cael pob rhyw ymgeledd
Oddiar ddwylaw'r llongwyr mad,
Dygwyd hwy mewn diogelwch,
'Nol i dir eu hanwyl wlad;
Wedi cael yr holl helyntion
Mawr y gorfoleddu sy',
Ond mae tynged drom y bachgen
Anwyl Parker, byth yn ddu.

Argraffwyd gan E. Rees, Ystalyfera.